# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Adroddiad (SLC(3) 19-08)

**Dyddiad: 23 Medi 2008**
**Amser:8.45am**
**Lleoliad:Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Cynnwys

Cyfarfu'r pwyllgor ar 23 Medi 2008. Roedd yr Aelodau pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Dr Dai Lloyd AC, Alun Davies AC a Joyce Watson AC. Cafwyd ymddiheuriadau gan Andrew R T Davies AC ac Eleanor Burnham AC. Roedd Mark Isherwood a Mick Bates yn dirprwyo ar eu rhan.

Mae adroddiadau'r pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

### Eitem 2.1: Offerynnau drafft sy'n agored i gael eu cymeradwyo yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn gadarnhaol)

SLC183 - Gorchymyn Twbercwlosis (Profi a Phwerau Mynediad) (Cymru) 2008

Y weithdrefn gadarnhaol. Fe'i gwnaed ar ... 2008. Yn dod i rym ar ...2008.

### Eitem 2.2: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC181 - Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) (Diwygio) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 7 Gorffennaf 2008. Fe'u gosodwyd ar 9 Gorffennaf 2008. Yn dod i rym ar 30 Gorfennaf 2008.

SLC184 - Rheoliadau Cyfrannau Cyllideb Ysgolion (Dibenion Rhagnodedig a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 11 Gorffennaf 2008. Fe'u gosodwyd ar 16 Gorffennaf 2008. Yn dod i rym ar 31 Awst 2008.

SLC185 - Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 16 Gorffennaf 2008. Fe'i gosodwyd ar 17 Gorffennaf 2008. Yn dod i rym ar 11 Awst 2008.

SLC186 - Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Dinas a Sir Abertawe) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 15 Gorffennaf 2008. Fe'i gosodwyd ar 17 Gorffennaf 2008. Yn dod i rym ar 1 Medi 2008.

SLC187 - Gorchymyn Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (Amrywio Atodlen 5) (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 17 Gorffennaf 2008. Fe'i gosodwyd ar 21 Gorffennaf 2008. Yn dod i rym ar 12 Awst 2008.

SLC188 - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 23 Gorffennaf 2008. Fe'u gosodwyd ar 24 Gorffennaf 2008. Yn dod i rym ar1 Ionawr 2009.

SLC191 - Gorchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Fframwaith Cenedlaethol) (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fei gwnaed ar 28 Awst 2008. Fe'i gosodwyd ar1 Medi 2008. Yn dod i rym ar 22 Medi 2008.

SLC193 - Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 31 Awst 2008. Fe'i gosodwyd ar 2 Medi 2008. Yn dod i rym ar 6 Hydref 2008

SLC194 - Rheoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 4 Medi 2008. Fe'u gosodwyd ar 8 Medi 2008. Yn dod i rym ar 1 Hydref 2008.

SLC195 - Gorchymyn Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (Uchafsymiau a Dibenion Ychwanegol) (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 6 Medi 2008. Fe'i gosodwyd ar 9 Medi 2008. Yn dod i rym ar 2 Hydref 2008.

SLC196 - Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 6 Medi 2008. Fe'u gosodwyd ar 9 Medi 2008. Yn dod i rym ar 2 Hydref 2008.

### Eitem 3: Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i dalu sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog

**15.2**

### Eitem 3.1: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC182 - Gorchymyn Rhwydi Pysgota Perdys (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 8 Gorffennaf 2008. Fe'i gosodwyd ar 9 Gorffennaf 2008. Yn dod i rym ar 30 Gorffennaf 2008.

SLC190 - Rheoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 5 Awst 2008. Fe'u gosodwyd ar 11 Awst 2008. Yn dod i rym ar 1 Medi 2008.

SLC192 - Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Diwygio) (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 31 Awst 2008. Fe'u gosodwyd ar 2 Medi 2008. Yn dod i rym ar 6 Hydref 2

008.

Ceir Adroddiadau'r pwyllgor o dan Reol Sefydlog 15.2 ar yr offerynnau statudol sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad y Cynulliad (y weithdrefn negyddol) yn Atodiadau 1 i 3 yr Adroddiad hwn**.**

### Eitemau eraill o fusnes

Nododd yr Aelodau fod yr ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd fel rhan o ymchwiliad y pwyllgor i'r gwaith craffu ar Is-ddeddfwriaeth a phwerau dirprwyedig wedi dod i ben ar ddechrau mis Medi a bod yr ymatebion ysgrifenedig wedi'u rhoi ar wefan y pwyllgor. Nododd yr Aelodau y byddai'r pwyllgor yn dechrau casglu tystiolaeth lafar yn y cyfarfod nesaf.

**Dr Dai Lloyd AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**
**23 Medi 2008**

# Atodiad 1

### Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**(SLC(3)-19-08)**

### SLC182

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.

### Teitl: Gorchymyn Rhwydi Pysgota Perdys (Cymru) 2008

Bydd y Gorchymyn hwn yn dirymu ac yn disodli Gorchymyn Rhwydi Pysgota Perdys (Cymru) 2003 (O.S. 2003/3035) i sicrhau cydymffurfiaeth lawn ag Erthygl 25 o Reoliad y Cyngor (E.C.) Rhif 850/1998 ar gyfer cadwraeth adnoddau pysgodwrol drwy fesurau technegol i ddiogelu y rhai ifanc o organebau morol. Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i gychod pysgota Prydeinig yng Nghymru ac mae'n eu gwahardd rhag cario na defnyddio rhwydi o'r fath ac eithrio o dan amgylchiadau penodol, ac yn rhoi pwerau gorfodi i swyddogion pysgodfeydd môr Prydeinig.

### Gweithdrefn:  Negyddol

Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn yn unol â'r hyn a nodir yn Rheol Sefydlog 15.2. (vi) (ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol) a (vii) ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg;

Mae Erthygl 3 (1) (d) o'r Gorchymyn Saesneg yn darllen "for the protection of juveniles or marine organisms". Er mwyn gweithredu'r amcanion polisi, dylai ddweud "for the protection of juveniles of marine organisms".

Mae Erthygl 3 (1) (ch) o'r fersiwn Gymraeg yn darllen "i ddiogelu rhai ifanc ac organebau morol", sef "for the protection of juveniles and marine organisms" yn Saesneg. Er mwyn gweithredu'r amcanion polisi, dylai ddweud "i ddiogelu y rhai ifanc o organebau morol", sef "for the protection of juveniles of marine organisms" yn Saesneg.

**Dr Dai Lloyd**
**Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**
**23 Medi 2008**

### Ymatebodd y Llywodraeth fel a ganlyn:-

Mae'r Llywodraeth wedi nodi ei bod yn derbyn y pwynt adrodd a'i bod yn bwriadu diwygio'r Gorchymyn cyn gynted â phosibl a beth bynnag cyn diwedd 2008.

# Atodiad 2

### Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

(SLC**(3)-19-08)**

### SLC190

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.

### Teitl: Rheoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) 2008

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) 2001. Yn unol â'r Rheoliadau, caiff Gweinidogion Cymru roi cymorth gwladol (sy'n cydategu cymorth y Gymuned Ewropeaidd) mewn cysylltiad â chyflenwi llaeth a chynhyrchion llaeth penodol i ddisgyblion mewn sefydliadau addysgol, a chânt hefyd bennu math neu ddosbarthiad sefydliadau addysgol neu gynhyrchion llaeth y ceir talu cymorth gwladol mewn cysylltiad â hwy.

### Gweithdrefn:  Negyddol

Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn dan Reol Sefydlog 15.2 ar sail yr hyn a nodir yn Rheol Sefydlog 15.2(vi) (drafftio diffygiol):

Cyfeiria Rheoliad 2 yn y diffiniad o "cyfnod allweddol 2" at "adran 355 o Ddeddf Addysg 1996". Mae'r cyfeiriad at adran 355 o Ddeddf Addysg 1996 yn anghywir gan fod yr adran hon wedi'i diddymu yng Nghymru gan Ddeddf Addysg 2002. Adran 103 o Ddeddf Addysg 2002 sydd bellach yn diffinio "cyfnod allweddol 2".

Cyfeiria Rheoliad 3 at allu Gweinidogion Cymru i roi cymorth  mewn cysylltiad â chyflenwi llaeth a chynhyrchion llaeth penodol i ddisgyblion mewn "sefydliadau addysgol". Dylai'r cyfeiriad cywir fod at "sefydliadau addysgol cymwys" sy'n derm a gaiff ei ddiffinio yn Rheoliad 2.

**Dr Dai Lloyd**
**Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**
**23 Medi 2008**

### Ymatebodd y Llywodraeth fel a ganlyn:-

Mae'r Llywodraeth wedi nodi ei bod yn derbyn y pwyntiau adrodd a nodwyd a'i bod yn bwriadu eu cywiro o fewn y tri mis nesaf.

# Atodiad 3

### Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**(SLC(3)-19-08)**

### SLC192

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.

### Teitl: Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Diwygio) (Cymru) 2008

Rhoddodd Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999 (O.S. 1999/293) ("Rheoliadau 1999") ar waith, yng Nghymru a Lloegr, Gyfarwyddeb y Cyngor 85/337/EEC ("Cyfarwyddeb AEA") ar asesu effeithiau prosiectau cyhoeddus a phreifat penodol ar yr amgylchedd (O.J. Rhif L175, 5.7.1985, t.40) fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Cyngor 97/11/EC (O.J. Rhif L73, 14.3.1997, t.5). Diwygiwyd y Gyfarwyddeb AEA hefyd gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2003/35/EC (O.J. Rhif L156, 25.6.2003, t.17).

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1999 er mwyn rhoi'r Cyfarwyddebau ar waith o ran ceisiadau am gymeradwyo materion a gadwyd yn ôl a cheisiadau am gymeradwyo amodau tebyg sydd ynghlwm wrth roi caniatadau cynllunio ("ceisiadau dilynol"). Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Penderfynu ar Apelau gan Bersonau Penodedig) (Dosbarthau

Rhagnodedig) 1997 sy'n rhagnodi'r dosbarthau ar apêl sydd i'w penderfynu gan bersonau a benodir gan Weinidogion Cymru yn unol â darpariaethau Atodlen 6 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn lle cael eu penderfynu gan Weinidogion Cymru. Mae'n allgáu o'r dosbarthau ar apêl a gedwir yn ôl, apelau gorfodi sy'n ymwneud â datblygiad anawdurdodedig y mae'r Gyfarwyddeb AEA yn gymwys iddo.

### Gweithdrefn: Negyddol

Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn ar sail yr hyn a nodir yn Rheol Sefydlog 15.2(vi), sef ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol:-

Mae Rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn datgan yn anghywir bod "Rheoliadau ... 1999 wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 11", pan ddylai Rheoliad 2 mewn gwirionedd ddatgan bod "Rheoliadau ... 1999 wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 12".

Mae Rheoliad 9 (3) yn y fersiwn Gymraeg o'r Rheoliadau hyn yn cyfeirio yn anghywir at y "ceisiadau perthynol i adolygu ceisiadau cynllunio mwynol" sy'n golygu "applications which relate to/relating to review of mineral planning applications". Yn hytrach na chyfeirio at "ceisiadau", mewn gwirionedd dylai gyfeirio at "caniatadau".

Gwahoddir y Cynulliad hefyd i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn ar sail yr hyn a nodir yn Rheol Sefydlog 15.2 (vii), sef ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg oherwydd bod rheoliad 9 (3) o'r fersiwn Saesneg yn cyfeirio at "ROMP applications", tra bo rheoliad 9 (3) o'r fersiwn Gymraeg yn cyfeirio at y "ceisiadau perthynol i adolygu ceisiadau cynllunio mwynol". Yn hytrach na chyfeirio at "ceisiadau", mewn gwirionedd dylai gyfeirio at "caniatadau".

**Dr Dai Lloyd**
**Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**
**Medi 2008**

### Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:-

Rheoliad 2

Mae'r Llywodraeth yn derbyn bod gwall wedi digwydd fel a nodir. Er hynny, gan mai mân wall teipograffyddol ydyw, mae'r Llywodraeth o'r farn ei bod yn briodol i'w gywiro naill ai wrth gyhoeddi neu drwy slip cywiro.

Rheoliad 9(3)

Derbynnir y pwynt adrodd. Er hynny, bwriad y cymal o dan sylw yw dyfynnu'n unig, er hwylustod y darllenydd, bennawd y ddarpariaeth y mae rheoliad 9(3) yn ei diwygio. Rhoddir rhif y ddarpariaeth honno hefyd, yn gywir, yn y ddau destun. Gan fod y ddarpariaeth a ddiwygir mewn offeryn cyn cyfnod datganoli, mae'r pennawd iddi yn Saesneg yn unig (wedi ei ddyfynnu'n gywir yn y testun Saesneg), ac felly ni all y testun Cymraeg ond rhoi pennawd cyfatebol beth bynnag. Gan gofio'r cyd-destun hwn, mae'r Llywodraeth o'r farn nad yw'r gwall yn un o arwyddocâd sylweddol. Er hynny, gan fod y Llywodraeth yn bwriadu gwneud diwygiadau pellach i ddarpariaethau ROMP yn hwyrach yn y flwyddyn, bydd yn gwneud cywiriad ar yr adeg honno.